Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 33 (Cy. 9) (C. 4)

# TRETHI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2) 2018

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Y Gorchymyn hwn yw'r ail orchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn darpariaethau penodol o'r Ddeddf i rym ar 25 Ionawr 2018. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud ag:

(a) talu derbyniadau i Gronfa Gyfunol Cymru;

(b) y Siarter safonau a gwerthoedd;

(c) pwerau ymchwilio sifil Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC");

(d) cosbau sifil sy'n ymwneud ag ymchwiliadau;

(e) llog;

(f) talu a gorfodi;

(g) adolygiadau ac apelau; ac

(h) ymchwiliadau i droseddau gan ACC.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn cychwyn unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf nad yw wedi ei chychwyn cyn 1 Ebrill 2018 ar y dyddiad hwnnw.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy orchymyn cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 2 i 20 | 18 Hydref 2017 | 2017/954 (Cy. 241) (C. 88) |
| Adran 21(1) | 18 Hydref 2017 | 2017/954 (Cy. 241) (C. 88) |
| Adran 22 | 18 Hydref 2017 | 2017/954 (Cy. 241) (C. 88) |
| Adran 23 | 18 Hydref 2017 | 2017/954 (Cy. 241) (C. 88) |
| Adran 27 | 18 Hydref 2017 | 2017/954 (Cy. 241) (C. 88) |
| Adran 29 | 18 Hydref 2017 | 2017/954 (Cy. 241) (C. 88) |
| Adrannau 33 i 35 | 18 Hydref 2017 | 2017/954 (Cy. 241) (C. 88) |
| Adran 66 | 18 Hydref 2017 | 2017/954 (Cy. 241) (C. 88) |
| Adran 69(3) a (4) | 18 Hydref 2017 | 2017/954 (Cy. 241) (C. 88) |
| Adran 101(3) a (4) | 18 Hydref 2017 | 2017/954 (Cy. 241) (C. 88) |
| Adran 163 | 18 Hydref 2017 | 2017/954 (Cy. 241) (C. 88) |
| Adran 167 | 18 Hydref 2017 | 2017/954 (Cy. 241) (C. 88) |

*Gweler* hefyd adran 194(1) o'r Ddeddf ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar 21 Ebrill 2016 (y diwrnod drannoeth y diwrnod y cafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif 33 (Cy. 9) (C. 4)

# TRETHI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2) 2018

*Gwnaed* *11 Ionawr 2018*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 194(2) a (3) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016(**1**).

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2) 2018.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 25 Ionawr 2018**

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 25 Ionawr 2018—

(a) adran 25 (talu derbyniadau i Gronfa Gyfunol Cymru);

(b) adran 26 (Siarter safonau a gwerthoedd);

(c) Rhan 4 (pwerau ymchwilio ACC), ac eithrio adrannau 82 (trosolwg o Ran 4) a 101(3) a (4) (pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas â diogeliad ar gyfer gohebiaeth freintiedig);

(d) Pennod 5 o Ran 5 (cosbau sy'n ymwneud ag ymchwiliadau);

(e) adran 154 (talu cosbau);

(f) adran 155 (gwahardd cosbi ddwywaith);

(g) adrannau 160 i 162 (darpariaeth mewn perthynas â llog);

(**1**) 2016 dccc 6.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(h) Rhan 7 (talu a gorfodi), ac eithrio adran 167 (ffioedd talu);

(i) Rhan 8 (adolygiadau ac apelau), ac eithrio adran 171 (trosolwg o Ran 8); a

(j) Rhan 9 (ymchwilio i droseddau).

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2018**

**3.** Daw unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf nad yw wedi ei chychwyn cyn 1 Ebrill 2018 i rym ar y dyddiad hwnnw.

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru
11 Ionawr 2018